

# Cydnabod Gwrthwynebiad

---

*“..gadewch inni fynd ato ef y tu allan i’r gweryll gan oddef y gwaradwydd a oddefodd ef.” (adn. 13)*

## **Beth am ddarllen Hebreaid 13:1–14 ac yna myfyrio**

Cri John Stott yw, ‘Ble mae’r hen bwyslais efengylaidd ar sancteiddrwydd?’ Ymhle yn wir? Mae’n tybio fod sancteiddrwydd wedi ei oddiweddyd gan yr awydd am brofiadau, ac er bod profiadau yn bethau i’w dymuno, mae sancteiddrwydd yn fwy felly.

Erbyn hyn, gobeithio ei bod yn amlwg na ellir meddwl am sancteiddrwydd heb feddwl am debygrwydd i Grist. Cofiwch, wrth ichwi ymdebygu iddo, mi fydd gwawd y byd yn siŵr o gynyddu. Mae’r gwawd yn bodoli hyd yn oed yn y gwledydd hynny lle ceir rhyddid crefyddol. Mi fydd yna bobl sydd am eich gwawdio, am eich gosod y tu allan i gylch eu ffrindiau, a hynny nid oherwydd unrhyw beth yn eich cymeriad, ond oherwydd eich perthynas â Iesu.

Sut ddylem ymateb i broblemau a all godi yn ein bywydau personol, cymdeithasol neu ym myd ein gwaith oherwydd ein hymrwymiad i safonau Duw? Dylem gydnabod y problemau, a hyd yn oed gorfoleddu ynddynt! Gorfoleddu! Ie, dyma ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion yn Mathew 5:12; ‘Llawenhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn y nefoedd; felly yn wir yr erlidiwyd y proffwydi oedd o’ch blaen chwi.’ Mae angen imi ddweud wrthyf fy hun, nid cywilydd yw hyn, ond canlyniad fy ymlyniad wrth yr Arglwydd. Braint i’r Cristion yw cael mynd ‘y tu allan i’r gweryll’, a dioddef er mwyn Iesu. Mae angen imi fynd yn fodlon, gan fodloni i godi’r groes, i ddioddef, gan rannu gwawd Iesu.

## **Beth am fynd ymlaen i ddarllen:**

Luc 6:20–22; Heb. 11:24–27; 1 Pedr 4:12–16

## **Meddylwch am y cwestiynau hyn:**

1. Sut ddylem ddeall erledigaeth?
2. Am ba reswm y dewisodd Moses lwybr gwawd?

## **Gweddi**

O! Dduw, paid â gadael imi gydymffurfio â’r byd er mwyn ennill mawl y byd. Beth bynnag ddaw, cynorthwya fi i aros yn ffyddlon. Amen.